

Ymateb Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon sy'n dwyn y teitl Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor ar gynlluniau cyllideb ddrafft Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2019-20.

Nodir ein hymatebion manwl i'w farn isod:

Barn 31: Cronfa Trawsnewid ar gyfer prosiectau braenaru

Hoffai'r Pwyllgor sicrwydd y caiff defnydd ac effaith y Gronfa hon eu monitro'n effeithiol, yn enwedig o ran ei defnyddio i gefnogi prosiectau sy'n wirioneddol drawsnewidiol a mesuradwy, a bod Iechyd meddwl yn cael yr un cydraddoldeb ag Iechyd corfforol wrth ystyried ceisiadau. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau llywodraethu ar gyfer y Gronfa.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Monitro a gwerthuso

Mae angen cynigion ar gyfer canllawiau'r Gronfa Trawsnewid i ddangos sut y caiff pob prosiect ei werthuso'n broffesiynol mewn ffordd brydlon, er mwyn darparu tystiolaeth a fydd yn llywio trafodaethau'n ymwneud â mabwysiadu hyn ymhellach, gan ystyried yn arbennig welliannau o ran canlyniadau Iechyd a gofal cymdeithasol, gwell gwerth o ran gofal Iechyd a darparu gwasanaeth fforddiadwy.

Caiff adroddiadau monitro chwarterol eu paratoi gan arweinwyr y cynigion a'u hasesu gan Dîm y Rhaglen Trawsnewid yn erbyn y meini prawf a nodir mewn llythyr cynnig grant, ac yn erbyn yr amcanion yn y cynnig gwreiddiol. Gwneir taliadau yn unol â chanllawiau cyllid a grantiau Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Rhaglen Trawsnewid ffrwd waith benodol ar werthuso hefyd a fydd yn ystyried cynigion y Gronfa Trawsnewid yng nghyd-destun trawsnewid ehangach, fel y disgrifir yn *Cymru Iachach*. Bydd tîm y Rhaglen yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y system Iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i sefydlu cyfres o fesurau a dangosyddion system, a fydd yn cefnogi'r gwaith o werthuso'r Gronfa Trawsnewid ac effaith y Rhaglen yn gyffredinol.

Mae adolygiad cynnar o gynigion a gymeradwywyd wedi cael ei gomisiynu a disgwylir adroddiad ar ei ganfyddiadau cyntaf ym mis Ionawr/Chwefror 2019. Bydd hyn yn gwneud sylwadau ar ddyraniad y Gronfa Trawsnewid yn erbyn y meini prawf, gan gynnwys gofynion rhanbarthol (fesul ardal Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol) ac addasrwydd yn erbyn meysydd polisi allweddol a blaenoriaethau cyflawni gwasanaethau (megis Iechyd meddwl, plant a phobl

ifanc, pobl hŷn, anabledd a gofaluwyr). Caiff yr adolygiad cynnar ei ystyried gan Fwrdd Cynghori y Rhaglen Trawsnewid yn gynnar yn 2019, er mwyn gallu diwygio'r Gronfa os bydd angen.

Cynigion trawsnewidiol a datblygu

Mae'n rhy fuan yn y rhaglen i werthuso'r effaith drawsnewidiol. Fodd bynnag, er mwyn i'r panel arfarnu eu cefnogi, mae'n rhaid i gynigion ddarparu gwybodaeth argyhoeddiadol i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r deg egwyddor cynllunio a nodir yn Cymru Iachach ac yn arbennig y ddwy egwyddor olaf, sy'n golygu bod cynigion a gefnogir yn:

- Rhai y gellir eu hehangu - sicrhau bod modd ehangu arferion da o lefel leol i lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac allan i dimau a sefydliadau eraill.
- Trawsnewid – sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, eu bod yn newid a disodli dulliau presennol, yn hytrach nag ychwanegu haen ychwanegol barhaol at yr hyn a wnawn nawr.

Bydd angen i gynigion ddangos sut y bydd eu model newydd yn gynaliadwy ar ôl cwblhau'r prosiect trawsnewid. Caiff hyn ei ystyried wrth arfarnu cynigion, wrth eu monitro ac wrth eu gwerthuso.

Cydraddoldeb o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol

Mae *Cymru Iachach* yn datgan, "Gwelir swyddogaeth bwysig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ysgogi datblygiad modelau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd, ar lefel leol. Dylai asesiadau o anghenion a chynlluniau gwasanaethau clystyrau lleol gyfrannu at asesiadau rhanbarthol a chynlluniau ardal sy'n cael eu datblygu gan y Byrddau hynny. Efallai y bydd modelau gofal cynnar yn canolbwyntio ar y grwpiau â blaenoriaeth a nodwyd yn yr Adolygiad (hynny yw y Gymraeg, pobl hŷn, plant, pobl ag afiechyd meddwl a phobl anabl) [...]"

Caiff cynigion eu harfarnu yn erbyn yr egwyddorion cynllunio a nodir yn *Cymru Iachach*, ac mae llawer o gynigion a gymeradwywyd eisoes yn canolbwyntio ar iechyd meddwl.

Mae'n rhaid i gynigion gael eu cymeradwyo gan un neu fwy o Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol, a fydd yn eu hystyried o fewn cyd-destun asesiadau anghenion y boblogaeth ranbarthol a chynlluniau ardaloedd, yn unol â deddfwriaeth bresennol a pholisïau Llywodraeth Cymru, sy'n atgyfnerthu cydraddoldeb o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth, gan dynnu sylw at anghenion gofal a chymorth mewn unrhyw ardal, a nodi amrywiaeth a lefel y gwasanaeth fydd ei angen i ddiwallu'n anghenion hynny. Mae Cynlluniau Ardal, a ddatblygir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn nodi sut y bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn diwallu'r anghenion a nodir yn yr asesiadau o'r boblogaeth.

Trefniadau Llywodraethu

Caiff y Gronfa Trawsnewid ei rheoli gan Dîm y Rhaglen Trawsnewid, sy'n cynnwys Pennaeth Rhaglen a Rheolwr y Gronfa Trawsnewid, wedi'u goruchwyllo gan y Cyfarwyddwr Technoleg a Thrawsnewid, sy'n atebol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid i gynigion gael eu cefnogi gan un neu ragor o Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol cyn cael eu cyflwyno i'w harfarnu. Caiff cynigion eu hasesu yn erbyn y canllawiau a gyhoeddir ar gyfer y Gronfa Trawsnewid, gan banel arfarnu sy'n cynnwys uwch swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr y sector o Fwrdd Cynghori'r Rhaglen Trawsnewid. Mae'r Panel yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Caiff cynigion a gaiff eu cymeradwyo eu cyllido drwy lythyr yn cynnig grant, sy'n darparu ar gyfer rheolaeth weithredol tra bydd y prosiect yn parhau, gan gynnwys adroddiadau chwarterol a threfniadau monitro. Bydd y Rhaglen Trawsnewid yn trefnu digwyddiadau dysgu rheolaidd ar gyfer y rhwydwaith hefyd i bob un o arweinwyr y cynigion, ynghyd â gweithgareddau cefnogaeth eraill i annog dysgu'n gyflym a datblygu cynigion rhwng rhanbarthau.

Canllawiau Cronfa Trawsnewid

Cyhoeddwyd y rhain yma:

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/181113t-fund-guidancececy.pdf>

Barn 33: Cyllid Gofal Sylfaenol

Rydym yn nodi sylwadau'r Cyfarwyddwr Cyllid nad yw Llywodraeth Cymru yn cydnabod y ffigur o 5 y cant o ostyngiad i gyllid gofal sylfaenol. Rydym yn ymwybodol bod y ffigur hwn, sydd hefyd wedi cael ei adrodd gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn seiliedig ar ddadansoddiad o gyfrifon blynyddol y byrddau iechyd. Mae hefyd yn wir bod tystiolaeth ysgrifenedig y byrddau iechyd i'r Pwyllgor yn dangos bod cyfran eu gwariant a gaiff ei wario ar ofal sylfaenol wedi parhau'n gyson ar y cyfan dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn peri pryder difrifol i ni. O ystyried y ffocws polisi ar symud gofal allan o ysbytai, byddem wedi disgwyl gweld cynnydd sylweddol yn lefel y gwariant ar ofal sylfaenol, ond mae'r dystiolaeth a welwyd yn dangos nad yw hyn yn digwydd. Credwn fod hyn yn dangos yr heriau sy'n wynebu byrddau iechyd wrth fynd ati i drawsnewid y gwasanaeth, o ystyried y pwysau parhaus y maent yn eu hwynebu yn y sector aciwt, er enghraifft. O gofio bod cyfeiriad y gwasanaethau, fel y nodir yn *Cymru Iachach*, tuag at ddarparu gwasanaethau i'w cynnal ym maes gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, rydym yn bryderus iawn na fydd yr arian arfaethedig ar gyfer gofal sylfaenol yn ddigonol i gefnogi'r amcan hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

O ran gwariant refeniw, rydych eisoes wedi gofyn am y swm o arian sy'n cael ei roi i ofal sylfaenol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf. Darparwyd yr ymateb a ganlyn:

2015-16 - £1.365 miliwn

2016-17 - £1.374 miliwn

2017-18 £1.436 miliwn, sydd, ym mhob blwyddyn, yn cynrychioli 21% o gyfanswm y gyllideb iechyd.

Yn 2018-19 byddem yn disgwyl i'r buddsoddiad godi tua £27.7 miliwn i adlewyrchu cynnydd y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion (DDRB) a gytunwyd ar gyfer meddygon teulu a deintyddion yn 2019-20, yn amodol ar Gynlluniau Integredig Tymor Canolig, byddwn yn disgwyl buddsoddiadau pellach mewn gofal sylfaenol yn ychwanegol at gynnydd y DDRB.

Barn 48: Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014

Rydym yn nodi nad yw uchelgeisiau a gofynion *Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014* wedi cael eu gwireddu'n llawn gan holl gyrff y GIG, ond bod cynnydd wedi'i wneud gan fyrddau iechyd penodol. Fodd bynnag, rydym wedi ein siomi gan analluogrwydd parhaus nifer o fyrddau iechyd i reoli eu harian. Hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet am y rhesymau y tu ôl i'r anawsterau parhaol mewn rhai byrddau iechyd, a pha asesiad a wnaed o'r ffactorau sy'n cyfrannu at eu hanallu parhaus i gynnal disgyblaeth ariannol. Credwn ei bod yn hanfodol bwysig deall i ba raddau y gallai hyn fod yn deillio o faterion rheoli ar lefel bwrdd iechyd unigol, neu faint y gallai fod yn deillio: er enghraifft, o'u dyraniadau cyllid.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel yr esboniwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, cafwyd sefydlogrwydd yn y flwyddyn ariannol 2017-18 o ran sefyllfa diffyg ariannol y pedwar bwrdd iechyd sydd wedi'u huwchgyfeirio, gyda chanlyniad eithaf tebyg i 2016-17. Rydym yn hyderus y bydd y canlyniad a gaiff ei adrodd ar gyfer 2018-19 yn dangos gwelliant sylweddol yn y canlyniad cyffredinol, o'i gymharu ar sail tebyg-at-ei-debyg â 2017-18.

Yn ei gyd-destun, mae sefydliadau'r GIG, gyda'i gilydd, wedi gwneud gwerth dros £1.5 biliwn o arbedion effeithlonrwydd ers sefydlu'r sefydliadau newydd ar ddechrau'r degawd hwn. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, canfuwyd dros ddwy ran o dair o'r arbedion hyn (71%) yn rheolaidd.

Yn benodol, mae'r materion yn ymwneud ag arweinyddiaeth a llywodraethu ariannol, sef y prif ffactorau a greodd y diffygion ariannol ym Myrddau Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac Abertawe Bro Morgannwg, wedi cael eu datrys erbyn hyn, a disgwylir i'r ddau Fwrdd adrodd gwelliant sylweddol yn eu canlyniadau o'u cymharu â 2017-18. Rydym yn disgwyl derbyn cynlluniau ariannol 2019-20 yn gynnar yn y flwyddyn newydd, ac rydym yn ffyddiog ar hyn o bryd bod y ddau sefydliad yn wynebu llwybr tuag at gydbwysedd ariannol o fewn y tair blynedd nesaf.

Mae'r diffygion ym Myrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn fwy anhydrin, ac yn annhebygol o gael eu datrys yn y tymor canolig. Rydym yn hyderus nad yw sefyllfaoedd cyllido perthnasol yn ffactorau sy'n cyfrannu at eu diffygion. Canfu'r adolygiad cwbl gynhwysfawr o Hywel Dda y costau y tu hwnt i reolaeth y Bwrdd yn ymwneud â demograffeg a maint, ac mae'r rhain, bellach, wedi cael eu cwmpasu gyda dyraniad ychwanegol o £27 miliwn. Tynnodd yr adolygiad sylw at gyfleoedd effeithlonrwydd i'r Bwrdd fynd i'r afael â hwy. Dylai'r cyllid ychwanegol, a ddyrannwyd yn dilyn yr adolygiad

cwbl gynhwysfawr, a'r rhaglen newid gwasanaeth, drwy ddarparu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Clinigol, alluogi Hywel Dda, dros y tymor canolig i'r tymor hwy, i gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn glinigol ac yn ariannol ar gyfer ei boblogaeth breswyl. Byddwn yn disgwyl gweld gwelliant parhaus yn lefel ei ddiffygion yn y flwyddyn ariannol nesaf, ond mae'n annhebygol ei fod mewn sefyllfa, ar hyn o bryd, i gyflwyno cynllun tymor canolig cytbwys.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ddyraniad uwch y pen o'r boblogaeth na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac ystyrir bod ei anghenion iechyd yn is wrth eu hasesu gan ddefnyddio'r fformiwla ddyrannu bresennol, felly mae'n annhebygol mai ei sefyllfa gyllido berthnasol sy'n cyfrannu at y diffyg. Mae'r sefyllfa gyllido berthnasol hon, o'i chymharu â'r fformiwla ddyrannu bresennol, wedi bod yn gyson ers gweithredu'r fformiwla ddyrannu bresennol yn 2003. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Cynulliad o ran ei statws mesurau arbennig, ac mae'r ffaith nad yw'r sefydliad wedi gallu sicrhau gwelliannau i'w sefyllfa ariannol hyd yn hyn yn parhau i greu rhwystredigaeth. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd lunio a gweithredu cynllun clinigol, gwasanaeth ac ariannol cynaliadwy. Er nad yw'r bwrdd iechyd mewn sefyllfa ar hyn o bryd i gyflwyno strategaeth glinigol a strategaeth gwasanaeth cynaliadwy, mae'n annhebygol o fod mewn sefyllfa i lunio a darparu cynllun tymor canolig cytbwys am beth amser. Bellach, mae'r Cadeirydd newydd yn chwarae rhan weithredol mewn gwella'r gafael ar strategaeth, cynllunio a chyllid yn y sefydliad, a gobeithio y bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol o ran y strategaeth a chynlluniau a lleihau'r diffyg yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Iechyd Meddwl

Barn 62: Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Fodd bynnag, rydym yn dal yn effro i anghysondeb y ddarpariaeth bresennol a'r gofynion cynyddol, ac yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol.

Barn 64: Hoffem weld mwy o fanylion am yr union wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y set ddata craidd iechyd meddwl, yr amserlenni ar gyfer datblygu'r data yn llawn, a sut y bydd hyn yn gwella'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, mesur canlyniadau, ac olrhain effaith y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl

Barn 65: Gofynnwyd i fyrddau iechyd i ba raddau y mae cyllid a ddyrannwyd ar gyfer iechyd meddwl yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau eraill, er enghraifft, pan mae gan gleifion ddiagnosis sylfaenol o gyflwr iechyd meddwl ond mae angen triniaeth arnynt ar gyfer cyflyrau iechyd eraill. Nid oedd eu hymatebion yn darparu'r eglurder roeddem yn chwilio amdano, ac rydym yn pryderu o hyd ynghylch a yw trefniadau ariannu, gan gynnwys yr arian a neilltuwyd ar gyfer iechyd meddwl, yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng dull gyfannol at ddiwallu anghenion unigolyn, a sicrhau bod adnoddau ar gyfer iechyd meddwl yn cael eu diogelu. Byddem yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwynt hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn gwario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o GIG Cymru ac rydym wedi clustnodi gwariant iechyd meddwl o fewn y gyllideb. Y dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer 2019-20 yw £679 miliwn, sy'n gynydd o £92 miliwn ers 2016-17. Fel rhan o'n proses Cynllun Integredig Tymor Canolig, rydym wedi egluro ein disgwyliadau bod byrddau iechyd yn:

- Dangos dealltwriaeth o anghenion iechyd meddwl a lles meddwl eu poblogaeth.
- Cynnal dadansoddiad o gapasiti a galw sydd hefyd yn dangos sut y mae'r bwrdd iechyd yn gweithredu yn y meysydd ar gyfer gwelliant
- Diffinio modelau gwasanaeth i ddiwallu anghenion y boblogaeth, a gaiff eu cynnal gan gynlluniau'r gweithlu.
- Dangos gwariant dros y flwyddyn flaenorol yn erbyn y dyraniadau iechyd meddwl sydd wedi'u clustnodi a'r cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol yn erbyn y gyllideb honno.

Wrth i'r prosesau cynllunio hyn aeddfedu, disgwyliwn i'r dull hwn ddod yn fwy cadarn a thrwy ein cynllun cyflawni ar gyfer 2016-19, gwnaethom yn glir hefyd bod angen i fyrddau iechyd ddangos eu bod yn cadw at eu dyraniadau iechyd meddwl sydd wedi eu clustnodi a dangos sut mae eu gwariant yn gwella canlyniadau i bobl â phroblemau iechyd meddwl. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn a byddwn yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd i wella ar y broses adrodd hon.

Bydd y Set Ddata Graidd Iechyd Meddwl (MHCDS) yn casglu data ar lefel pobl o wybodaeth a gaiff ei chofnodi gan glinigwyr wrth gynnal asesiadau, darparu gofal a chynllunio triniaethau, ac adolygiadau. Cytunwyd ar yr eitemau data hyn gan fwrdd llywio prosiect cenedlaethol amlasiantaeth ac maent wrthi'n cael eu hystyried gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru ar hyn o bryd (WISB) i sicrhau eu bod yn cael eu casglu mewn ffordd gyson. Gwneir y gwaith hwn fesul cam ar hyn o bryd, ond disgwylir iddo ddod i ben erbyn diwedd 2019. Caiff y gronfa ddata hon ei chasglu o fewn System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), sy'n llwyfan technoleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Fel rhan o hyn, mae llif gwaith hefyd sy'n ystyried gofynion adrodd. Bydd hyn yn cynnwys targedau presennol Llywodraeth Cymru megis amseroedd cyfeirio at driniaeth o dan y Mesur Iechyd Meddwl, ond hefyd sut rydym yn cofnodi canlyniadau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r grŵp cyfoedion; meysydd sy'n fyw ar WCCIS a NWIS ar hyn o bryd er mwyn galluogi'r gwaith hwn i ddatblygu.

Yn unol â rhaglen ehangach WCCIS, disgwylir i'r system fod yn gweithredu'n llawn erbyn 2022. O safbwynt iechyd meddwl, rydym wedi cyflogi staff i gefnogi gwaith yn uniongyrchol â thimau ledled Cymru drwy gydol 2019, i dreialu ffurflenni a chasglu data gan ddefnyddio systemau TG presennol, i baratoi ar gyfer WCCIS. Mae hyn yn cynnwys gwaith i lywio ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniad, casglu profiad defnyddwyr gwasanaethau, gwella cysondeb o ran defnyddio dulliau mesurau canlyniadau a mesur cynnydd o ran gwella. Y gobaith fydd ymestyn hyn i'r holl dimau yn 2020-2021.

Gweithlu Iechyd

Barn 83: Rydym yn nodi sicrwydd y byrddau iechyd eu bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'u gweithlu ac yn parhau i bryderu am y cynnydd araf a wneir yn y maes hwn.

Barn 84: Rydym yn disgwyl bod y gwaith a wneir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru o ran cynllunio'r gweithlu yn cael yr effaith a fwriedir. Rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu strategaeth y gweithlu yn yr hirdymor.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi gofyn i Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru gydweithio i ddatblygu strategaeth y gweithlu ar gyfer y sector iechyd a gofal a darparu drafft i'r llywodraeth ei ystyried erbyn mis Tachwedd 2019. Mae'r ddau sefydliad wedi dechrau cydweithio eisoes i lunio'r cynllun a chynnwys ystod eang o randdeiliaid yn y broses. Byddwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Barn 85: Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth clir rhwng gweithwyr y sector gofal iechyd a gweithwyr y sector gofal cymdeithasol, fel y mae rhanddeiliaid wedi ei nodi gyda ni'n rheolaidd. Credwn fod hyn yn rhwystr sylweddol rhag integreiddio gwasanaethau yn llwyddiannus. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ddechrau mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chydraddoldeb o ran parch ac rydym yn cydnabod bod hon yn her hirdymor o gofio'r problemau hanesyddol anodd gyda'r sector gofal cymdeithasol o'i gymharu ag iechyd. Fodd bynnag, hoffem gael rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ar oblygiadau ariannol mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn, a'r cynllunio cyllidebol hirdymor a all fod ei angen i gefnogi'r newid hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Efallai y bydd angen i'r gwaith o gyflawni modelau presennol a datblygu modelau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor fynd i'r afael â gwahaniaethau ac ystod o faterion yn ymwneud â'r gweithlu er mwyn galluogi darpariaeth weithredol effeithiol. Wrth i'r modelau cyflawni integredig hyn ddatblygu ac wrth i'w heffeithiolrwydd o ran cael eu mabwysiadu ar raddfa fawr gael ei werthuso, bydd angen inni ystyried ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a yw materion y gweithlu yn rhwystrau rhag integreiddio a pha gamau sydd eu hangen i sicrhau y gellir goresgyn unrhyw rwystrau. Mae'r gwaith hwn, ochr yn ochr â datblygu Strategaeth ar gyfer y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn ein galluogi i nodi'n well beth sydd angen ei wneud a'r costau a'r cyfleoedd posibl yn sgil gweithredu unrhyw newidiadau.

Barn 86: Rydym yn nodi'r sylwadau a wnaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru o ran defnyddio ffocws cenedlaethol mewn perthynas â mynd i'r afael â salwch staff yng ngweithlu'r GIG. Hoffem gael rhagor o wybodaeth ynghylch pa gynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel rhan o'r fargen gyflog 3 blynedd ar gyfer staff Agenda ar Gyfer Newid y cytunwyd arni gyda Fforwm Partneriaeth Cymru, cytunwyd hefyd ar ddull cenedlaethol ag iddo fwy o ffocws o ran rheoli absenoldeb salwch.

Cyhoeddodd y Bartneriaeth bolisi rheoli salwch newydd ac mae wedi llunio hyfforddiant a gaiff ei gyflwyno ledled Cymru, wedi'i ddarparu gan undebau a chyflogwyr, gydag undebau a chyflogwyr hefyd yn bresennol yn yr hyfforddiant. Mae hefyd wedi cytuno i ystyried y ffordd y gall staff y GIG gael gafael ar gymorth yn gyflym os ydynt yn cael problemau iechyd meddwl neu faterion cyhyrsgerbydol (dau brif achos absenoldeb) er mwyn sicrhau y gall staff aros yn y gwaith neu ddychwelyd cyn gynted â phosibl. Mae'r Bartneriaeth wedi cytuno i fonitro effaith y dulliau newydd hyn a gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi fel rhan o'r gwaith monitro mewn partneriaeth gyda'r nod o ostwng y cyfraddau absenoldeb.

Gofal Cymdeithasol

Barn 100: Er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol a gaiff ei ddarparu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn y gyllideb ddrafft hon, a'r cyllid ychwanegol arfaethedig ar gyfer awdurdodau lleol a gyhoeddwyd yn natganiad Llywodraeth Cymru ar 20 Tachwedd 2018, mae gennym bryderon difrifol ynghylch lefel yr arian ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gyffredinol, gan gynnwys y ffaith nad yw'r lefel ariannu bresennol yn ddigonol i ateb y galw, ac y bydd y sefyllfa hon yn gwaethygu gyda thoriadau parhaus i gyllidebau llywodraeth leol ynghyd â'n poblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd mewn cyflyrau cronig.

Barn 101: O gofio bod y cyfeiriad rydym yn teithio tuag ato o ran gwasanaethau, fel y nodir yn *Cymru lachach*, tuag at integreiddio llawer mwy a galluogi mwy o bobl i gael gofal mor agos â phosibl i'w cartref, credwn na ellir ystyried cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ar wahân i gyllid iechyd. Credwn, fel mater o reidrwydd, y dylid archwilio dull mwy cyfannol tuag at gyllido iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynnal cyllidebau ar y cyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Gofal cymdeithasol yw un o'n chwe blaenoriaeth a nodir yn *Ffyniant i Bawb*. Mae gofal tosturiol, urddasol yn chwarae rhan hanfodol mewn cymunedau cryf, gan gynorthwyo pobl i aros yn iach ac yn annibynnol am gyfnod hwy. *Cymru lachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* yw'r glasbrint ar gyfer system lle mae cymorth a thriniaeth ar gael ar draws ystod o wasanaethau yn y gymuned, gan sicrhau, hefyd, y gellir cael gafael ar ofal mewn ysbyty yn gyflymach pan fydd ei angen.

Yn y gyllideb ddrafft amlinellol, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o £192 miliwn er mwyn gweithredu *Cymru lachach* ac integreiddio gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys £30 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer gofal cymdeithasol a £30 miliwn ar gyfer byrddau partneriaeth rhanbarthol – sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd â llywodraeth leol – i lywio'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau lleol. Mae'r Byrddau Partneriaeth yn defnyddio £15 miliwn i ddatblygu'r uchelgais sydd gennym ar y cyd i leihau'r angen i blant fod mewn gofal. Caiff y £15 miliwn sy'n weddill ei ddefnyddio i gynorthwyo'r cynnydd

mewn cydweithio rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd er mwyn cefnogi oedolion sydd ag anghenion gofal yn eu cartrefi, gan osgoi eu derbyn i'r ysbyty yn ddiangen, neu sicrhau y gallant ddychwelyd cyn gynted â phosibl ar ôl bod yn yr ysbyty.

Eto, mae'r gyllideb ddrafft yn darparu £50 miliwn mewn cyllid refeniw ar gyfer y Gronfa Gofal Integredig. Mae'r gronfa hon yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau gofal integredig a chaiff ei rheoli ar y cyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Ar ben hynny, rydym yn darparu £20 miliwn drwy'r grant cynnal refeniw i Awdurdodau Lleol i gydnabod y rhan bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol craidd a'r dull ataliol sy'n ganolog i'r ddarpariaeth. Mae'r cyllid hwn yn ychwanegol at yr ymrwymiad a wnaed yng nghyllideb 2018-19 i flaenoriaethu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol drwy setliadau 2018-19 a 2019-20.

Mae treth yn ysgogiad polisi newydd inni ac yn golygu ystod o gyfleoedd posibl i ddatrys heriau strategol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y gwaith rydym yn ei wneud ar godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn y tymor hwy – yn arbennig yng nghyd-destun y galwadau sy'n codi yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad annibynnol gan yr Athro Gerald Holtham, sy'n darparu dadansoddiad economaidd dangosol o'i syniad ar gyfer yswiriant cymdeithasol uwch a allai ariannu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Sefydlodd y Prif Weinidog ar y pryd Grŵp Gweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol i lywio'r drafodaeth am dreth gofal cymdeithasol bosibl i ddarparu cyllid ychwanegol yn y dyfodol ar gyfer gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Yn wreiddiol, roedd o Grŵp o dan Gadeiryddiaeth y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, ond erbyn hyn fi sydd yn ei gadeirio fel Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd gwaith yn parhau i gefnogi trafodaethau'r Grŵp Rhyngweinidogol dros y flwyddyn nesaf.

Un o swyddogaethau pwysig y byrddau partneriaeth rhanbarthol yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Am y rheswm hwnnw, o fis Ebrill eleni, roedd yn ofynnol i fyrddau sefydlu cronfa gyllid ranbarthol ar y cyd i ddiwallu anghenion costau llety cartrefi gofal pobl hŷn. Diben y gronfa ar y cyd hon yw cynnal trefniadau comisiynu mwy integredig a chydweithredol.

Mae hyn yn symudiad radical o ran y ffordd o gomisiynu gofal pobl hŷn. O hyn ymlaen, ni fydd partneriaid yn comisiynu gofal ar wahân. Yn hytrach, bydd bwrdd iechyd a'r holl awdurdodau lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn comisiynu gofal yn strategol gyda'i gilydd. Bydd hyn yn arwain at werth llawer gwell am arian ac yn sicrhau gwell canlyniadau llesiant i bobl hŷn.

Chwaraeon

Barn 106:

Credwn fod gan y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, sy'n gyfrifol am strategaeth a pholisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, rôl glir i'w chwarae o ran gwthio'r agenda

hon, a gofynnwn am ragor o wybodaeth am y camau gweithredu penodol y bydd ei adran yn eu cymryd i sicrhau bod asedau cyhoeddus megis ysgolion yn cael eu hagor er mwyn cynyddu mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgaredd corfforol i gymunedau lleol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffem egluro mai'r Gweinidog Addysg sy'n gyfrifol am fynediad cymunedol i gyfleusterau chwaraeon ysgolion, yn yr un modd â'r ymrwymadau yn *Ffyniant i Bawb* i gyflwyno Canolfannau Dysgu Cymunedol sy'n darparu gwasanaethau estynedig gofal plant, cymorth rhianta, dysgu i deuluoedd a mynediad i'r gymuned at gyfleusterau sydd wedi'u cysylltu â'r diwrnod ysgol a chreu canolfannau cymunedol.

Mae'r Gweinidog Addysg yn gwneud ymdrech i ddatblygu'r gwaith hwn drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canolfannau Dysgu Cymunedol trawsadrannol. Mae Cangen Polisi Chwaraeon Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru wedi bod yn rhan weithgar o'r Grŵp hwn ac maent yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'u cydweithwyr yn yr Adran Addysg i ddarparu cyngor a chymorth o ran defnydd cymunedol o gyfleusterau chwaraeon ysgolion.

Roeddem yn falch iawn o glywed bod £15 miliwn wedi cael ei roi tuag at y gwaith hwn a bod awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar i gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb am Raglen Grant Cyfalaf Canolfannau Dysgu Cymunedol/Canolfannau Cymunedol a fydd yn galluogi ysgolion a cholegau i ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf i hwyluso defnydd cymunedol o asedau addysgol.

Bydd Polisi Chwaraeon a Chwaraeon Cymru yn parhau i gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp, gan gynnwys pan fydd cais am grant yn cael ei dderbyn mewn cysylltiad â chyfleuster chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru mewn lle da, wrth gwrs, i gynghori ynghylch y tirlun chwaraeon mewn ardal er mwyn osgoi dyblygu darpariaeth a gall hefyd roi cyngor technegol ynghylch cyfleuster chwaraeon.

Mynediad Cyfartal at Chwaraeon

Barn 113. Rydym yn croesawu sicrwydd y Gweinidog bod mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol rhwng gwahanol grwpiau'r boblogaeth yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ac yn ofniad o ran yr arian a ddarperir i Chwaraeon Cymru. Hoffem weld cyfeiriad mwy eglur at hyn yn llythyrau cylch gwaith Chwaraeon Cymru yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r llythyr cylch gwaith a anfonwyd at Chwaraeon Cymru ym mis Chwefror 2018 yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod tair blynedd rhwng 2018 a 2021¹. Cânt eu pennu yng nghyd-destun "Symud Cymru Ymlaen" a "Ffyniant i Bawb" a'u llywio gan ein hamcanion llesiant.

¹ <https://gov.wales/docs/drah/publications/180226-sport-wales-remit-letter-2018-21-cy.pdf>

Yn y llythyr cylch gwaith hwnnw rwyf i, fel Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, wedi nodi'r amcanion y disgwyliwn iddynt arwain gwaith a phroses ddsbarthu cyllideb Chwaraeon Cymru. Mae'r rhain yn nodi'n glir annog a hwyluso cyfleoedd i ragor o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau egniol yn ystod pob cyfnod o'u bywydau, a buddsoddi ymdrech ac adnoddau pan fo amrywiadau sylweddol o ran cyfranogiad a phan fo diffyg cyfleoedd neu ddiffyg dyhead i gymryd rhan mewn gweithgareddau egniol.

Gellir gweld tystiolaeth o'r ymrwymiad hwn yn yr enghreifftiau isod. Mae mynediad i bawb yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer penderfyniadau cyllido. Mae Chwaraeon Cymru yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar ei gyllideb gyffredinol. Mae Chwaraeon Cymru wedi llunio mentrau cyllido penodol hefyd, megis BME Sport Cymru; StreetGames a Chwaraeon Anabledd Cymru, gyda'r diben pennaf o wneud cynnydd cyflym i wella cydraddoldeb mynediad.

Caiff cynnydd ei fesur drwy gwestiynau perthnasol yn yr Arolwg Cenedlaethol ar gyfer Cymru a hefyd drwy werthusiad penodol o brosiectau sy'n rhan o ofynion cyllid grant Chwaraeon Cymru. Mae'n ofynnol i bob sefydliad partner a gaiff ei gyllido'n flynyddol nodi manylion y ffordd mae'n bwriadu mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Ymysg rhai o'r enghreifftiau y mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi er mwyn cynorthwyo i greu cyfleoedd ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mae:

Chwaraeon Anabledd Cymru, sydd â thua 23,000 o aelodau o glybiau a darperir dros 1 filiwn o gyfleoedd y flwyddyn i gymryd rhan mewn chwaraeon.

BME Sport Cymru, sef prosiect dwy flynedd a gaiff ei gyllido gan Chwaraeon Cymru gyda buddsoddiad o £538,339 gyda'r nod o ganfod dull cynaliadwy o gynyddu cyfranogiad pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn chwaraeon ledled Cymru. Ym mhob cwr o Gymru, mae'r prosiect wedi ymgysylltu â dros 2,800 o unigolion mewn chwaraeon rheolaidd neu weithgareddau egniol.

Ar gyfer 2018-19, mae Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi £173,000 yn StreetGames Wales, sydd wedi cynorthwyo i sefydlu 70 o Glybiau Chwaraeon Trothwy (Doorstep Sports Clubs) ledled Cymru.

O ran menywod a merched, dengys ffigurau diweddaraf Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod 6,020 o ferched o dan 16 yn cymryd rhan, a 1,982 o oedolion.

Gallaf gadarnhau o ran Strategaeth y dyfodol sy'n cael ei datblygu gan Chwaraeon Cymru, y bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyfranogi mewn chwaraeon a gweithgareddau egniol perthnasol rhwng gwahanol grwpiau o'r boblogaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Er gwybodaeth, cytunodd y Bwrdd ar y canlynol yn ei gyfarfod diwethaf.

EIN BWRIAD STRATEGOL

Canolbwyntio ar yr unigolyn: meithrin amgylcheddau lle mae anghenion ac ysgogiadau'r unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, p'un a ydych yn dechrau, yn datblygu neu'n anelu at ragoriaeth ar y llwyfan byd-eang.

Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc: sicrhau bod pob person ifanc yn meddu ar y sgiliau, yr hyder a'r ysgogiad i'w galluogi i fwynhau chwaraeon a bod ganddynt y seiliau i fyw bywyd egnïol, iach a chyfoethocach.

Sicrhau bod chwaraeon yn agored i bawb: sicrhau bod gan bob cymuned leol amrywiaeth eang o gyfleoedd chwaraeon hamdden anffurfiol a chystadleuol a gaiff gyhoedduswydd da, sy'n hawdd cael gafael arnynt ac sy'n fforddiadwy. Cymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall pawb gyrraedd eu potensial beth bynnag eu gallu neu ysgogiad, cefndir, rhyw, ethnigrwydd, neu amgylcheddau personol eraill.

Gwneud hyn yn y tymor hir: datblygu sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus, a gaiff ei arwain gan ddealltwriaeth a dysgu ar y cyd. Ystyried tueddiadau'r dyfodol a syniadau'r dyfodol i lywio ein gwaith.

Bod yn bartner parchus a gwerthfawr: bod yn sefydliad sector cyhoeddus enghreifftiol sy'n darparu gwasanaeth a gaiff ei werthfawrogi, sy'n adnabod ac yn deall anghenion ein cwsmeriaid ac sy'n tystio i rym chwaraeon a dathlu ei lwyddiannau ar y cyd.

Er na fyddwn yn anfon llythyr cylch gwaith newydd at Chwaraeon Cymru tan fis Chwefror 2021, byddwn yn anfon cadarnhad ffurfiol o'r gyllideb ar gyfer 2019-20 a byddwn yn ailadrodd yr agweddau allweddol hyn ar gyfer y dyfodol. Yn ogystal, rwyf i hefyd, fel Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Phrif Weithredwr a Chadeirydd Chwaraeon Cymru a byddaf yn parhau i godi'r pwyntiau hyn â hwy pan fyddwn yn siarad.

Barn 114: Rydym yn siomedig o ran canfyddiadau adroddiad Cyflwr y Genedl 2018 Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru, a gyhoeddwyd yn yr wythnos yn dilyn ein sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft gyda'r Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon. Dangosodd adroddiad yr arolwg nad yw lefelau cyfranogi ymysg disgyblion yng Nghymru wedi cynyddu o'r rhai a arsylwyd yn 2015. Canfu, hefyd, fod y gwahaniaethau hirsefydlog mewn lefelau cyfranogi yn parhau'n amlwg, gyda disgyblion benywaidd a disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol a chwaraeon yn llai aml. Mae'n bryder bod y gwahaniaeth mewn cyfraddau cyfranogi rhwng y mwyaf breintiedig a'r mwyaf difreintiedig wedi cynyddu.

Barn 115: Rydym yn pryderu bod canfyddiadau Chwaraeon Cymru ei hun yn ymddangos yn wahanol i'r darlun mwy cadarnhaol a gyflwynodd y Gweinidog wrth roi tystiolaeth i'n Pwyllgor.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rwyf i, fel Dirprwy Weinidog, wedi ymateb ar wahân i'r ymholiad hwn.

Barn 116: Byddem yn awyddus i gael gwybodaeth fanwl bellach gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos effaith gwariant ar lefelau cyfranogi ymysg gwahanol grwpiau, ac yn nodi sut mae'r effaith hon yn cael ei monitro a'i

defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at ryw, oedran, anabledd, ethnigrwydd, a statws economaidd-gymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Darparwyd tystiolaeth yn flaenorol ar ystod y data a gasglwyd ac fe'i defnyddiwyd i fonitro cynnydd a llywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r tri chylch diwethaf o Arolwg Chwaraeon Ysgol, wedi'u rhannu yn ôl rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd, a statws economaidd-gymdeithasol o ran cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy mewn wythnos.

Mae'r ffigurau yn dangos darlun sefydlog ar y cyfan, ond gyda chynnydd i'w nodi o fewn y grwpiau a gaiff eu cynrychioli leiaf a'r rhai sy'n ymgysylltu leiaf yn draddodiadol. Un newid pwysig ers 2013 yw'r bwlch llai rhwng y rhywiau o ran cyfranogi, gostyngiad o 8 i 4 pwynt canran. Yn 2018, cymerodd 48% o ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 3 i 11 ran mewn gweithgareddau chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm (sef chwaraeon allgyrsiol neu glwb) deirgwaith neu fwy mewn wythnos. Mae'r ffigur hwn wedi codi o 40% ers 2013.

Un pryder a welir yn y data yw'r bwlch sy'n ymddangos fel pe bai'n tyfu ymysg grwpiau cymdeithasol-economaidd. Mae 42% o'r rhai yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf (yn ôl data prydau ysgol am ddim) yn cymryd rhan deirgwaith yr wythnos neu fwy, ac mae'n 55% ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd o amddifadedd isaf. Tyfodd y bwlch 2 bwynt canran ers 2015. Mae gwahaniaeth hefyd o ran sawl munud o weithgaredd corfforol y mae'r grwpiau hyn yn ei wneud. 104 (amddifadedd isaf) i 92 (amddifadedd mwyaf).

Mae'r darlun a welir yn dangos yn glir fod angen gwneud llawer mwy. Ond mae hefyd yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud. Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i ddefnyddio'r data hwn i lywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol ac adolygu a gwerthuso prosiectau blaenorol i ganfod y dulliau mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau.

<i>Grwpiau Ethnig</i>	2013	2015	2018
Gwyn	41	49	49
Cymysg	41	52	52
Du/Du Prydeinig	37	52	51
Asiaidd/ Asiaidd Prydeinig	29	36	40
Arabaid/Arall	29	39	46
Cyffredinol	40	48	48


<i>Anabledd</i>	2013	2015	2018
-----------------	-------------	-------------	-------------

Anabledd / Nam	31	40	47
Heb Anabledd / Nam	41	49	48
Cyffredinol	40	48	48

Sector	2013	2015	2018
Disgyblion Cynradd	40	49	47
Disgyblion Uwchradd	40	48	48
Cyffredinol	40	48	48

Rhyw	2013	2015	2018
Benywaidd	36	44	46
Gwrywaidd	44	52	50
Bwlch Rhwng y Rhywiau	8	8	4
Cyffredinol	40	48	48

Statws Economaidd-gymdeithasol



Barn 121: Ardoll y diwydiant diodydd meddal

Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru wedi dewis clustnodi'r cyllid canlyniadol y mae'n ei gael o'r ardoll diwydiant diodydd meddal i fynd i'r afael â gordewdra a gwella lefelau gweithgaredd corfforol, a'n dealltwriaeth yw mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad yw wedi dilyn y trywydd hwn. Mae hyn, yn ein barn ni, yn gyfle a gollwyd. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried ei safbwynt ar hyn, a sicrhau bod cyllid o'r ardoll yn cael ei ddefnyddio i gynyddu gweithgaredd corfforol a lleihau'r baich gordewdra yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog y bydd yn

codi'r mater hwn gyda chydweithwyr yn y Llywodraeth yn bersonol ac rydym yn edrych ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ynghyd â chyflwyno'r ardoll diwydiant diodydd meddal, cynyddodd Llywodraeth y DU wariant mewn nifer o feysydd yn Lloegr yng Nghyllideb mis Mawrth 2016 yn ymwneud ag ymestyn y diwrnod ysgol, chwaraeon ysgol a chlybiau brecwast. O ganlyniad i'r mesurau gwariant hyn, cafodd Cymru £57 miliwn dros y cyfnod o bedair blynedd, gyda setliad refeniw ar ei gyfer (2016-17 i 2019-20). Mae'n egwyddor bwysig datganoli nad yw cyllid a gawn o ganlyniad i fesurau gwariant a gyhoeddir yn Lloegr yn cael ei glustnodi at ddibenion penodol. Yn unol ag arferion a sefydlwyd, cafodd yr arian a gawsom ei ychwanegu at ein cronfeydd wrth gefn a'i ddyrannu mewn cyllidebau dilynol yn unol â'n blaenoriaethau strategol, gan gynnwys hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb. Nid oes gennym setliad y tu hwnt i gyfnod y gyllideb bresennol. Bydd penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau mewn blynyddoedd dilynol yn cael eu gwneud mewn cyllidebau'r dyfodol yn unol â'n blaenoriaethau.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ystod o weithgareddau iechyd ac addysg i wella canlyniadau i blant yng Nghymru. Yn ddiweddarach y mis hwn, byddwn yn lansio ymgynghoriad 'Pwysau Iach: Cymru Iach', a fydd yn ystyried amrywiaeth o gynigion i fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant. Caiff strategaeth derfynol ei lansio erbyn mis Hydref 2019 drwy ymrwymiad o fewn ein Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru i atal a lleihau gordewdra ledled Cymru.

Cynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru

Barn 126: Mae gennym bryderon difrifol am gynaliadwyedd cyllid ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Credwn y bydd effaith gyfunol toriadau i gyllideb llywodraeth leol, gostyngiadau yn arian y loteri, a cholli arian Ewropeaidd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, yn arwain at lai o gyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru. Bydd hyn yn tanseilio'r agenda ataliol yn ddifrifol, a bydd goblygiadau hirdymor ar gyfer iechyd a lles poblogaeth Cymru. Nid yw'n dderbyniol nad oes gan Lywodraeth Cymru gynllun clir ar waith i liniaru hyn, a hoffem gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgaredd corfforol yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor. Yn fy nhystiolaeth, roeddwn i, fel Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yn eglur iawn ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu a thynnais sylw at y dull rydym wedi eu gwreiddio bellach o gydweithredu mwy a rhannu'r defnydd o gyllidebau ar draws sectorau, iechyd, addysg, trafnidiaeth yn ogystal â chwaraeon.

Un enghraifft allweddol o hyn yw model Chwaraeon newydd Gogledd Cymru ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol drwy sefydlu cyrff rhanbarthol newydd. Mae'r corff newydd yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid sy'n

cynnwys awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol (Betsi Cadwaladr), Prifysgolion Glyndwr a Bangor, Cymdeithas Dai Rhanbarthol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru. Drwy weithio fel hyn, gellir dwyn ynghyd arian o ystod o sectorau a sicrhau effeithlonrwydd drwy leihau nifer a symleiddio contractau prosiectau grantiau.

Mae Chwaraeon Cymru yn rhagweld y bydd y cyfnod ymgysylltu ar gyfer rhanbarthau eraill, yn dilyn dadansoddiad o lwyddiant cydweithio yn y gogledd, yn dechrau yn gynnar yn 2019.

Mae'r Gronfa Iach ac Egniol ar gael hefyd. Bwriedir hyn fel cydweithrediad hirdymor rhwng Chwaraeon ac Iechyd a'n tri chorff hyd braich: Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Cafodd y Gronfa Iach ac Egniol ei lansio fis Gorffennaf gennym y llynedd. Bydd y buddsoddiad cam cyntaf yn canolbwyntio ar wella iechyd meddwl ac iechyd corfforol drwy alluogi ffyrdd iach a gweithgar o fyw, gyda ffocws arbennig ar gryfhau asedau cymunedol. Caiff ymgeiswyr eu hannog i ffurfio datrysiadau sy'n manteisio ar gydweithio, asedau cymunedol sydd ar gael eisoes, megis clybiau, ysgolion a gweithleoedd, a thechnoleg newydd. Mae'r gwaith o ddatblygu a darparu'r Gronfa newydd yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n rhoi'r pum ffordd o weithio yn ganolog i'r gwaith dylunio, darparu, monitro a gwerthuso. Mae'r gyllideb o £5 miliwn wedi cael ei dyrannu ar gyfer y tair blynedd nesaf, a chaiff 50% ei ariannu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a 50% gan Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn enghraifft dda iawn o ddwyn cyllidebau ynghyd a chydweithio ar draws Adrannau.

Ein bwriad yw datblygu'r ffordd hon o weithio gan fod dwyn cyllidebau ynghyd yn ffordd gynaliadwy o weithio'n effeithiol yn ystod y cyfnodau ariannol anodd hyn.

Ers y Pwyllgor, rydym hefyd wedi gallu sicrhau ymrwymiad cyfalaf o £5 miliwn i Chwaraeon Cymru yn 2018-19 gyda'r cylch gwaith penodol o fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru. Mae cynlluniau posibl wedi cael eu nodi ar sail cyrhaeddiad daearyddol, gyda'r dewis o ddefnydd aml-chwaraeon o un cyfleuster, y gallu i gychwyn yn gyflym ac ymrwymiad o gyllid gan y partneriaid cydweithredol. Rhoddir blaenoriaeth yn ystod y cam cyntaf hwn i brosiectau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran canlyniadau i blant a phobl ifanc, pobl ag anabledd neu salwch hirdymor, pobl sy'n economaidd anweithgar neu sydd mewn ardaloedd o amddifadedd, a phobl hŷn a'r rhai sydd o fewn oedran ymdddeol o'r gwaith. Mae'r gwaith o lunio'r rhestr fer ar y gweill.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi diogelu llywodraeth leol rhag y gwaethaf o ran toriadau i gyllid cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, hoffem ychwanegu ein bod yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn ymdrin â heriau ariannol ac yn wynebu rhai penderfyniadau anodd o ran y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiadau hyn, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn parhau i gael cymorth ariannol sylweddol gan

Lywodraeth Cymru, a gaiff ei ddarparu fel cyllid cyffredinol, gan roi rhyddid i awdurdodau flaenoriaethu eu hadnoddau yn unol ag anghenion eu cymunedau. Yn ogystal â bodloni eu gofynion statudol, mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol hefyd i ddarparu gwasanaethau anstatudol sy'n canolbwyntio ar anghenion a lles cymunedau lleol megis chwaraeon a chyfleusterau hamdden.

Barn 127: Credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd safiad cryf wrth ymdrin â Chamelot i sicrhau na fydd Cymru'n colli arian y loteri, sy'n cyfrannu'n sylweddol at arian ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am ei drafodaethau gyda Camelot.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ym mis Tachwedd, cefais i, fel Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ar y pryd, a dosbarthwyr y loteri yng Nghymru gyfarfod yng Nghaerdydd gyda Nigel Railton, Prif Weithredwr Camelot. Cefais gyfle i amlinellu swyddogaeth hanfodol y Loteri Genedlaethol o ran cefnogi prosiectau ledled Cymru a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i fywydau pobl ymhob cwr o Gymru. Rydym ar drothwy 25 mlynedd ers sefydlu'r Loteri Genedlaethol, ac mae wedi cael effaith drawsnewidiol ar gyllido'r Celfyddydau, Chwaraeon a Threftadaeth ac amrywiaeth eang o achosion elusennol a phrosiectau cymunedol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Pwysleisiais yr angen i Camelot gryfhau'r cysylltiad rhwng y chwarae ac achosion da. Er gwaethaf rhai tueddiadau calonogol dros y misoedd diwethaf, mae incwm i achosion da wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae gwerthiant yn parhau'n fregus. O ganlyniad, mae dosbarthwyr y loteri wedi gorfod gostwng cyllidebau ac wedi cael eu gorfodi i gefnogi llai o brosiectau yn y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Rwy'n parhau'n bryderus bod newidiadau yn y farchnad loteri ehangach yn cael effaith barhaus ar incwm achosion da ac rwyf wedi codi hyn yn rheolaidd gyda Llywodraeth y DU.

Camelot UK Lotteries Limited sy'n dal y drwydded gan y Comisiwn Hapchwarae i weithredu'r Loteri Genedlaethol tan fis Ionawr 2023. Yng nghyfarfod bwrdd diweddar Cabinet Chwaraeon y DU ym mis Tachwedd, cafwyd cyflwyniad gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch ail-drwyddedu'r Loteri Genedlaethol a fydd yn digwydd cyn bo hir. Yn y cyfarfod, pwysleisiais y yr achos dros sicrhau bod y drwydded neaf yn cynnwys termau ac amodau mwy llym a fydd yn sicrhau cysondeb arian y loteri ar gyfer chwaraeon yng Nghymru.

Ffrydiau ariannu tymor hwy

Barn 130: Rydym yn nodi pryderon rhanddeiliaid bod ffrydiau ariannu un flwyddyn gan Chwaraeon Cymru'n gwneud cynllunio strategol, hirdymor yn anodd, ac rydym yn cytuno y gall cyllid sydd ond wedi'i gadarnhau yn y tymor byr gael effaith negyddol ar effeithiolrwydd a chynaliadwyedd prosiectau.

Barn 131: Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog fod hyn yn rhannol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch yr arian y mae'n ei gael gan Drysorlys EM. Fodd bynnag, byddem yn nodi bod anghysonderau ynghylch hyd cylchoedd

cynllunio ariannol mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Mae byrddau lechyd yng Nghymru, er enghraifft, yn gweithredu cylch cynllunio tair blynedd. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i roi trefniadau cyllido tymor hwy ar waith i alluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i gynllunio'n fwy strategol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Hoffem ddechrau drwy esbonio'r safbwynt cylch cyllido tair blynedd ar gyfer Byrddau lechyd.

Ers 2014, mae wedi bod yn ddyletswydd statudol ar Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau lechyd i lunio cynllun tair blynedd parhaus, bob blwyddyn lle y gallant ddewis pryd i gydbwysu eu gwariant ariannol. Rhoddir dyraniad cyllideb blyneddol unigol iddynt bob blwyddyn ym mis Rhagfyr a rhaid darparu cynllun wedi'i ddiweddarau erbyn diwedd y mis Ionawr canlynol i'w gytuno gan Ysgrifennydd y Cabinet. Mae cyllid cyfalaf yn broses ar wahân. Mae'r corff hyd braich, lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gweithredu o dan y cytundeb hwn.

O ran Chwaraeon Cymru, rydym yn cydnabod yr heriau y gall rhai rhanddeiliaid eu teimlo o ganlyniad i gael cadarnhad o ddyfarniad am un flwyddyn ariannol yn unig ac rydym wedi bod yn gweithio ers amser i weithredu prosesau lliniaru. Er enghraifft, am y tro cyntaf eleni, roeddem wedi gallu anfon llythyr cylch gwaith tair blynedd i Chwaraeon Cymru (2018 i 2021) a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau a amlinellir uchod.

Mae'r gwaith hwn yn unol â gwaith yr Uned Cyrff Cyhoeddus sydd wrthi'n ystyried disodli trefniadau cylch gwaith blyneddol ar hyn o bryd ar draws Llywodraeth Cymru gyda'r nod o hwyluso gwaith cynllunio tymor hwy a rhoi mwy o sicrwydd i gyrff cyhoeddus yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau goruchwyllo. Y nod yn y gwaith hwn yw y rhoddir dyraniadau cyllido cadarn ar gyfer y flwyddyn gyntaf, gyda chyllid dangosol ar gyfer gweddill y blyneddol. Byddai'n eglur y gallai cyllid ddisgyn neu godi yn unol â blaenoriaethau'r Llywodraeth, newidiadau i bortffolios gweinidogol, amrywiadau cyllideb, neu godi pryder ynghylch effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd y corff cyhoeddus.

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ar y pryd yn nogfennaeth y gyllideb mai dim ond cyllideb refeniw am flwyddyn y gall ei phennu eleni. Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal Adolygiad newydd o Wariant yn 2019. Ni wyddom pa effaith a gaiff hyn ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.